Iorwerth – D, Peniarth 32, f. 26v
Mechnïaeth

O deruyd y dyn rodi mach y arall ar beth, jawn yw idaw rydhau y vach o vn o tri pheth y byd ryd mach: ae o talu trostaw, ae o wystlaw, ae o wadu mach. Os y wadu a vynn, val hynn y gwedir: dyuot ar yr ynat, a'r ynat a dyly keissaw y gan y dwy bleit adef ae mach y gwr ae nyt mach. 'Mach,' heb yr hawlwr; 'Na vach,' heb y kynnogyn. Yna y mae iawn y'r ygnat gouyn y'r mach, 'A wyt uach di?' 'Wyf,' heb y mach. 'Kwbyl wat,' heb y kynnogyn, 'nat wyt uach di y gennyf i, nac ar hynny nac ar dim.' 'Dioer,' heb y mach, 'ual y mae goreu y dyly mach hebrwg y vot yn vach, myui a hebrygaf vy mot yn uach.' 'Dioer,' heb y kynnogyn, 'ual y mae goreu y dyly kynnogyn wadu mach, minheu a'th wadaf di.' Yna y mae iawn y'r ygnat edrych pa delw y mae iawn gwadu mach. Sef a dyweit kyfreith, kanyt oes namyn vn tauawt y mach yn gyrru arnaw ef, na dyly namyn vn tauawt y kynnogyn y wadu. 'Je,' heb y kynnogyn, 'minneu a'th wadaf di.' Yna y mae iawn y'r ygnat kymryt y creir yn y law a dywedut wrth y kynnogyn, 'Nawd Duw ragot a nawd Pab Ruuein a nawd dy arglwyd nat elych yn llw cam.' Os twng ynteu, tynget y Duw yn y blaen ac y'r creir yssyd yn llaw yr ygnat nat mach ef y ganthaw ef, nac ar a dyweit nac ar dim. Ony wrthtwng y mach arnaw, bit ryd y kynnogyn o'r hawl a thalet y mach kwbyl o'r dylyet y'r hawlwr.

Iorwerth – D
Mechnïaeth

Os yw'n digwydd i ddyn roddi mach i berson arall ar rywbeth, mae'n iawn iddo ryddhau ei fach o un o dri rheswm y bydd mach yn rhydd: naill ai o dalu drosto, neu o wystlo, neu o wadu mach. Os ei wadu a fyn, fel hyn y'i gwedir: dyfod at yr ynad, ac mae'n iawn i'r ynad geisio gan y ddwy blaid addef a yw'r gŵr yn fach ai peidio. 'Mach,' ebe'r hawlwr; 'Nid mach,' ebe'r dyledwr. Yna y mae'n iawn i'r ynad ofyn i'r mach, 'A wyt ti yn fach?' 'Wyf,' ebe'r mach. 'Cwbl wad,' ebe'r dyledwr, 'nid wyt ti yn fach gennyf i, nac ar hynny nac ar ddim.' 'Duw a ŵyr,' ebe'r mach, 'yn y modd gorau y mae'n iawn i fach gadarnhau ei fod yn fach, fe gadarnhaf innau fy mod yn fach.' 'Duw a ŵyr,' ebe'r dyledwr, 'yn y modd gorau y mae'n iawn i ddyledwr wadu mach, fe wadaf innau di.' Yna y mae'n iawn i'r ynad edrych ar y ffurf iawn i wadu mach. Dyma a ddywed cyfraith, gan nad oes ond un tafod y mach yn ei gyhuddo, iawn yw cael ond un tafod y dyledwr i'w wadu. 'Ie,' ebe'r dyledwr, 'fe wadaf innau di.' Yna y mae'n iawn i'r ynad gymryd y crair yn ei law a dweud wrth y dyledwr, 'Nawdd Duw i ti a nawdd Pab Rhufain a nawdd dy arglwydd na roddi di lw cam.' Os bydd yntau'n tyngu, tynged i Dduw yn gyntaf ac i'r crair sydd yn llaw yr ynad nad yw ef yn fach ganddo, nac ar yr hyn a ddywed nac ar ddim. Oni fydd y mach yn tyngu yn ei erbyn, bydded y dyledwr yn rhydd o'r hawl a thaled y mach y ddyled gyfan i'r hawlwr.

Blegywryd – T, Harley 958, f. 10r
Mechnïaeth

Oet mach y wybot ae mach ae nyt mach: tri dieu. Reit yw dyuot teir llaw ygyt wrth rodi dyn yn vach: llaw y mach, a llaw y neb a'e rotho yn vach, a llaw y neb a'e kymerho, ac ymffydyaw o law y law. Or byd vn llaw eisseu o hynny yn ymffydyaw, balawc uechni y gelwir honno, eithyr y lle yd el dyn yn vach kynnogyn drostaw ehunan neu dros arall nys rotho yn vach. Ansawd balawc yw bot y neill pen idaw yn rwym, a'r llall yn ryd, ac wrth hynny or kymer y dylyawdyr fyd y talawdyr ar talu y dylyet, a ffyd y mach ar gymell y talawdyr, pob vn ohonunt a dyly gwrtheb o'e amot y'r dylyawdyr. Ony chymer onyt fyd vn ohonunt, ny dyly eithyr vn gwrtheb idaw. Heuyt, or dyry y mach fyd y'r dylyawdyr ar gymhell y dylyet idaw, ef a dyly gwrtheb idaw o'r dylyet oll kyny chymerho fyd y talawdyr. Gwedy del oet dyt talu, y mach a dyly oet dyd y gyfarch y talawdyr. Oet mach y paratoi tal: vn dyd ac wythnos or byd reit idaw talv.

Blegywryd – T
Mechnïaeth

Amser penodedig mach i wybod ai mach ydyw ai nid mach: tri diwrnod. Mae'n rhaid i dair llaw ddod ynghyd wrth roddi dyn yn fach: llaw y mach, a llaw y sawl a'i rhoddo yn fach, a llaw y sawl a'i cymero, a thyngu o law i law. Os bydd un llaw o'r rheini yn eisiau wrth dyngu, gelwir honno'n falog fechni, ac eithrio'r lle yr êl dyn yn fach dyledwr drosto ef ei hun neu dros arall na roddo ef yn fach. Natur balog yw bod y naill ben iddo yn rhwym, a'r llall yn rhydd, ac oherwydd hynny os cymer yr hawlwr addewid y dyledwr ar dalu'r ddyled, ac addewid y mach ar gymell y dyledwr, mae'n iawn i bob un ohonynt ateb dros ei amod i'r hawlwr. Os cymer ef ond addewid un ohonynt, dim ond un a ddylai ei ateb. Hefyd, os dyry'r mach addewid i'r hawlwr y bydd yn cymell y ddyled iddo, mae'n iawn iddo ateb dros yr holl ddyled er na chymero addewid y dyledwr. Wedi i'r diwrnod penodedig i dalu ddod, mae gan y mach hawl i ddiwrnod penodedig i gyfarch y dyledwr. Amser penodedig mach i baratoi tâl: un dydd ac wythnos os bydd rhaid iddo dalu.

Cyfnerth – Mk, Llawysgrif Bodorgan, f. 38v
Mechnïaeth
Ny dyly neb kymryt mab y vach heb ganhat y tat tra dylyo bot drostaw. Na mynach na brawt heb ganhat eu habat. Nac alltut, kanyt geir y eir ar Gymro. Na gwreic, onyt ar yr hyn y medo arnaw. Nac yscolheic yscol heb ganhat y athro. Y rei hynny, nyt mechni eu mechni onyt gan ganhat y harglwydi. Or byd marw mach dyn ac adaw mab ohonaw, y mab a dyly seuyll yn lle y tat yn y vechni.

Cyfnerth – Mk
Mechnïaeth
Nid yw'n iawn i neb gymryd plentyn yn fach heb ganiatâd y tad tra ei bod yn iawn iddo ef fod drosto. Na mynach na brawd heb ganiatâd eu habad. Nac alltud, oherwydd nid gair yw ei air ar Gymro. Na gwraig, heblaw ar yr hyn y byddo ganddi feddiant arno. Nac ysgolhaig ysgol heb ganiatâd ei athro. Y rhai hynny, nid mechni yw eu mechni heblaw â chaniatâd eu harglwyddi. Os bydd marw mach dyn gan adael mab, mae'n iawn i'r mab sefyll yn lle y tad yn ei fechni.